

helplu


helpforce

Helpu Cymru

Adroddiad Diwedd Blwyddyn (2020-21)

Fiona Liddell

Ebrill 2021



CYNNWYS

- 1 [Amcanion Gwreiddiol](#)
- 2 [Cynnydd yn erbyn y cynllun gwaith 2020/21](#)
 - 2.1 [Datblygu arfer ac arloesedd](#)

Prosiectau peilot Gofal Diwedd Oes
Ffrind Mewn Angen (Age Cymru)
Gwirfoddoli mewn cartrefi gofal
 - 2.2 [Dysgu a rhannu](#)

Ymateb gwirfoddolwyr i Covid-19
Canllawiau gwirfoddoli a Covid-19
Cyfrannu i Rwydweithiau'r DU
Fideos, astudiaethau achos a blogiau
 - 2.3 [Datblygu llwybrau gwirfoddoli](#)

Hwb dysgu i wirfoddolwyr
 - 2.4 [Adeiladu sylfaen dystiolaeth](#)

Cefnogi gwaith ymchwil a phrosiectau eraill
Gwerthuso prosiect gofal diwedd oes
 - 2.5 [Dylanwadu ar gynllunio strategol](#)

Adferiad Covid-19
Cydweithio rhwng Helplu/Burdett Clinical
- 3 [Cyllideb](#)
- 4 [Llywodraethu](#)

Atodiad 1 Gweithgareddau a chynnydd – bob chwarter

Atodiad 2 Cyllideb

1 Amcanion Gwreiddiol

Amcanion y swydd, fel yr amlinellir yn nisgrifiad swydd Rheolwr Helpu Cymru, yw:

“Cynllunio a goruchwyllo darpariaeth rhaglen o weithgareddau a fydd yn cynyddu ymglymiad effeithiol gwirfoddolwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol mewn lleoliadau gofal sylfaenol ac eilaidd, a gweithredu fel prif ddolen rhwng gweithgarwch Helpu yng Nghymru, Helpforce UK a Grŵp Llywio Cymru.

Datblygu'r sylfaen dystiolaeth ynghylch arfer gwirfoddoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i'w defnyddio gan gynllunwyr a phenderfynwyr a chyfrannu straeon cadarnhaol am effaith i'r naratif sy'n newid ynghylch iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.”

2 Cynnydd yn erbyn y cynllun gwaith 2020-21

Mae'r adroddiad hwn yn berthnasol i ail flwyddyn y swydd a gyllidir. Oherwydd hynny mae'n dilyn ymlaen o (ac yn ceisio peidio dyblygu) adroddiad diwedd blwyddyn 1 a ddyddiwyd Ebrill 2020.

Rhoddir manylion pellach am weithgareddau ar sail chwarterol yn Atodiad 1.

2.1 DATBLYGU ARFER AC ARLOESIDD

Prosiectau peilot gofal diwedd oes

2.1.1 Llynedd fe adroddom fod dau brosiect ar y gweill (ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda), gyda chytundeb grant, grŵp llywio a chynlluniau gweithredu yn eu lle. Roedd trydydd prosiect (Bwrdd Iechyd Addysgu Powys) yn hwyr yn sgil problemau capasiti. Ataliwyd pob prosiect yn ffurfiol am gyfnod o bedwar mis, trwy gytundeb ledled y DU, ar gychwyn pandemig Covid-19.

Er gwaethaf heriau Covid-19, a olygodd gyfyngiadau ar fynediad i wardiau a phrinder gwirfoddolwyr oherwydd y risg i'w hiechyd personol, ynghyd â'r cyfnod clo, gofynion hylendid a chadw pellter cymdeithasol, roedd y tri phrosiect yn weithredol erbyn diwedd 2020.

2.1.2 Aeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ei flaen â chynlluniau ar gyfer gwirfoddolwyr cadw cwmni ar y wardiau.

Llwyddwyd i gyllido a recriwtio hyfforddwr/goruchwyliwr sgiliau clinigol i gefnogi'r gwaith, gan gynnwys darparu hyfforddiant a chefnogaeth barhaus i wirfoddolwyr.

Mae dulliau recriwtio a hyfforddi wedi eu haddasu fel eu bod yn digwydd yn rhithiol yn bennaf a rhoddwyd cynlluniau hyblyg yn eu lle er mwyn rheoli risgiau newidiol Covid-19.

2.1.3 Newidiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ei fodel o wasanaeth wedi'i leoli ar wardiau i wasanaeth rhithiol. Bu'r cydlynedd gwirfoddolwyr penodedig ar absenoldeb hirdymor oherwydd salwch ac fe adleolwyd dwy ran o dair o hwyluswyr y sector, a oedd eisoes wedi'u cyflogi gan y Bwrdd Iechyd ond nad oedd modd iddynt gyflawni eu dyletswyddau blaenorol oherwydd Covid-19, i gynorthwyo gyda'r prosiect hwn.

Prynwyd iPads newydd a'u sefydlu fel eu bod yn hawdd i'w defnyddio ac yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu gwybodaeth. Caiff gwirfoddolwyr eu recriwtio a'u cynefino trwy'r adran gwirfoddolwyr, gyda hyfforddiant arbenigol a chefnogaeth barhaus gan y tîm gofal lliniarol.

2.1.4 Ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys cafodd y cyfrifoldeb dros wirfoddoli ei drosglwyddo o'r gyfarwyddiaeth nyrsio i'r gweithlu a'r adran datblygu sefydliadol ym mis Mehefin. Felly roedd tîm newydd wrth y llyw er mwyn datblygu cynlluniau drafft y prosiect.

Cafodd cynnig ar gyfer gwasanaeth gwirfoddoli rhithiol ei ddatblygu'n gyflym er mwyn cefnogi cleifion diwedd oes mewn tri ysbyty cymunedol yn Ne Powys, ac fe gymeradwywyd cyllid grant i'r cynnig ym mis Awst. Dechreuodd y cydlynedd gwirfoddolwyr ar ei swydd ddiwedd mis Rhagfyr.

2.1.5 Trafodwyd a chytunwyd ar gynlluniau effaith a mewnwleidiad gyda'r tri phrosiect, sydd bellach yn mewnbynnu data yn fisol i system Adrodd Effaith Helplu. Cafodd arolwg cychwynnol ledled y DU ei gwblhau a'i ddadansoddi er mwyn rhoi crynodeb sylfaenol o safbwyntiau a disgwyliadau rhanddeiliaid allweddol y prosiectau. Mae damcaniaeth newid wedi'i datblygu ar gyfer pob prosiect.

2.1.6 Bu sefydlu atgyfeiriadau rheolaidd yn her sylweddol i bob prosiect. Mae mesurau adfer yn cynnwys cynyddu ymgysylltiad â staff a mwy o bresenoldeb personol ar y wardiau er mwyn adnabod atgyfeiriadau addas yn rhagweithiol.

Ffrind mewn Angen (Age Cymru)

2.1.7 Cafodd Age Cymru gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu a lansio gwasanaeth cyfeillio gwirfoddol dros y ffôn i fynd i'r afael ag anghenion cymorth ychwanegol disgwylidig pobl hŷn yn ystod pandemig Covid-19.

Rydym wedi cefnogi'r prosiect fel aelod o'r grŵp llywio ac ar banel grant. Cafodd ceisiadau am gyllid eu cymeradwyo er mwyn i awdurdodau lleol ddatblygu gweithgarwch lleol i ategu at waith y gwasanaeth ffôn cenedlaethol.

Gwirfoddoli mewn cartrefi gofal

2.1.8 Mewn ymateb i gais gan Arolygiaeth Gofal Cymru aethom ati i archwilio sut i fynd i'r afael â'r angen am ragor o wirfoddolwyr mewn cartrefi gofal er mwyn cefnogi cyswllt preswylwyr â theulu ac anwyliaid – wyneb yn wyneb ac yn ddigidol. Fe drefnom ymgynghoriadau â rhanddeiliaid allweddol a chynnig ffordd ymlaen. Mae LLC wedi cytuno i gyllido cynnig a ddatblygwyd gydag Age Cymru a fydd yn mynd i'r afael ar unwaith â'r angen am gefnogaeth gydag ymweliadau, yn ogystal â datblygu protocol a chanllawiau cenedlaethol i alluogi datblygu gwaith gwirfoddolwyr mewn cartrefi gofal yn fwy cyffredinol. Bydd y prosiect yn rhedeg rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr 2021.

2.2 DYSGU A RHANNU

Ymateb gwirfoddolwyr i Covid-19

2.2.1 Trefnwyd digwyddiad ar y we, ['Dyfodol gwahanol: adeiladu ar ymateb y gymuned i Covid-19'](#), fel rhan o gyfres o ddigwyddiadau CGGC ac fe ddenwyd 120 o gyfranogwyr iddo.

Trefnwyd un arall, ['Gwirfoddoli i gynorthwyo'r GIG – edrych ymlaen yn sgil Covid-19'](#) ar y cyd â Llywodraeth Cymru i annog meddwl mwy

strategol ynghylch rôl gwirfoddoli wrth gefnogi ein gwasanaethau iechyd.

2.2.2 Gwahoddwyd astudiaethau achos ar wirfoddoli yn ystod y pandemig gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a mudiadau'r trydydd sector a derbyniwyd dros 50 o gyflwyniadau. Rydym wedi defnyddio'r rhai sy'n ymwneud yn arbennig â gwasanaethau iechyd a gofal fel astudiaethau achos wedi'u cyhoeddi, cyfeiriadau mewn blogiau a chyflwyniadau. Defnyddiwyd enghreifftiau eraill mewn astudiaeth ymchwil ar y cyd rhwng Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a CGGC.

Canllawiau gwirfoddoli a Covid-19

2.2.3 Cynhyrchwyd canllawiau ar gyfer gwahanol sectorau wrth i'r pandemig ddatblygu, gan gynnwys gofal cymdeithasol, GIG, Cyngorau Gwirfoddol Sirol, awdurdodau lleol, gwirfoddolwyr a mudiadau cymunedol anffurfiol. Yn benodol, cynhyrchwyd [podlediad](#) a [thaflen wybodaeth](#) ar 'wirfoddoli a llacio'r cyfyngiadau symud'.

Rhwydweithiau Cymru a'r DU

2.2.4 Rydym wedi cynrychioli Cymru yng nghyfarfodydd y DU gan gynnwys gweminarau Helplu, digwyddiadau rhanddeiliaid Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (NCVO), Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwirfoddoli'r DU ac wedi cyfrannu at ffrydiau gwaith ar gynnal ymateb gweithredol y gymuned, wedi'i gydlynu gan Eden Project Communities. Yng Nghymru rydym wedi cydweithio â rhwydweithiau gan gynnwys Rhwydwaith Rheolwyr Gwirfoddolwyr y GIG, Fforwm Gwydnwch Gweithwyr Gofal Cymdeithasol (SCW Resilience Forum), Cymru Garedig (Compassionate Cymru) ac amrywiol rwydweithiau Cefnogi Trydydd Sector Cymru a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector.

Fideos, astudiaethau achos a blogiau

2.2.5 Mae cyfweiliadau a ffilmwyd gyda phump o randdeiliaid yn dilyn lansiad ['Siarter TUC Cymru/CGGC ar gyfer cryfhau'r cydberthnasau rhwng gweithwyr cyflogedig a gwirfoddolwyr'](#) wedi'u cyhoeddi [yma](#).

2.2.6 Cafodd tri fideo byr eu gwneud, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, i egluro'r egwyddorion a amlinellir yn [Cymru Iachach](#):

- [Tîm Sefydliadau Gwirfoddol Canolraddol Sir Benfro](#) (fideo ac astudiaeth achos)
- [Action on Hearing Loss](#) (fideo ac astudiaeth achos)
- [Sut mae gwirfoddolwyr yn cefnogi iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru](#) (fideo)

2.2.7 Mae [astudiaethau achos](#) a [blogiau](#) wedi eu hychwanegu at wefan Helplu Cymru.

2.3 DATBLYGU LLWYBRAU GWIRFODDOLI

Hwb Dysgu i Wirfoddolwyr

2.3.1 Addysg Iechyd Lloegr (Health Education England) sydd bellach yn gyfrifol am yr [hwb dysgu newydd i wirfoddolwyr](#), a ddatblygwyd gan Helplu. Yn dilyn adolygiad llawn a thrafodaethau â rhanddeiliaid yng Nghymru, daethom i'r casgliad na allai gwe-lywiad a chynnwys y wefan weithio'n dda i Gymru. Yn lle hynny, bwriadwn letya'r [safonau cyfredol i wirfoddolwyr mewn iechyd a gofal cymdeithasol](#), ynghyd â dolenni at adnoddau dysgu perthnasol, ar wefan addas arall.

2.4 ADEILADU SYLFAEN DYSTIOLAETH

Cefnogi gwaith ymchwil a phrosiectau eraill

2.4.1 Rhoddwyd cyflwyniad ar y cyd â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yng nghynhadledd ymchwil Rhwydwaith Astudiaethau'r Sector Gwirfoddol (VSSN) ar ymateb gwirfoddolwyr i Covid-19, a chyhoeddwyd y [blog](#) hwn.

2.4.2 Cafwyd cyfleoedd i gefnogi ymchwil ac astudiaethau eraill yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU ar wirfoddoli, ymateb cymunedol a Covid-19. Yn eu mysg roedd prosiect [Mobilising Volunteers Effectively](#) (Prifysgolion Sheffield, Hull a Leeds), gwaith ymchwil ar wirfoddoli gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac astudiaethau dichonoldeb mewn perthynas â gwirfoddoli ym Mhowys a gwirfoddoli ym maes gofal cymdeithasol yn Sir y Fflint.

2.4.3 Cyflwynwyd tystiolaeth i ymchwiliad pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru i [effaith Covid-19 ar y sector gwirfoddol](#).

Gwerthuso'r prosiect gofal diwedd oes

2.4.4 Gwnaed gwaith helaeth gyda'r tri thîm prosiect (gweler 2.1.2 a 2.1.4), Helplu a Marie Curie, i ddatblygu mesurau gwerthuso a dulliau casglu data. Oherwydd oedi yn sgil Covid-19 a chwtogi ar gam cyflawni'r prosiectau, bydd llai o ddata disgwylidig ar gael ac mae'r gwerthuso'n cael ei addasu er mwyn canolbwyntio mwy ar y profiad ansoddol.

2.5 DYLANWADU AR GYNLLUNIO STRATEGOL

Datblygu fframwaith ar gyfer gwirfoddoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

2.5.1 Defnyddiwyd cyllid o grant Adfer Gwirfoddoli yn sgil y Coronafeirws Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi prosiect i ddatblygu fframwaith ar gyfer gwirfoddoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Gweithiodd Helplu/CGGC mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru, y Comisiwn Bevan a Richard Newton Consulting i gyd-gynhyrchu adnodd pdf rhyngweithiol ar-lein gyda rhanddeiliaid i gefnogi gwahanol gynulleidfaoedd (h.y. comisiynwyr/penderfynwyr, mudiadau cyflawni, grwpiau cymunedol, cyrff seilwaith) i archwilio ystyriaethau allweddol yn ymwneud â chynllunio, datblygu ac integreiddio gwirfoddoli fel rhan o dirlun ehangach gwasanaethau iechyd a gofal. Mae'r adnodd wrthi'n cael ei gynllunio ar hyn o bryd. Bydd adroddiad llawn ar y prosiect ar gael ym mis Gorffennaf.

Cydweithio rhwng Helplu a Burdett Clinical (HBCC)

2.5.2. Cafodd y prosiect hwn a gyllidir ar draws y DU ei ailgynllunio ac mae disgwyl iddo gynnwys Helplu Cymru a gweithgarwch yng Nghymru yn 2022-23.

3 CYLLIDEB

Ceir crynodeb o gyllideb a gwariant y prosiect am y cyfnod o ddwy flynedd yn Atodiad B.

Incwm

3.1 Cytunwyd bod £75,000 a gymeradwywyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau peilot newydd yn 2020/21 i gael ei ddefnyddio at ddiben gwahanol er mwyn diwallu'r prinder cyllid i

brosiectau gofal diwedd oes yng Nghymru ac i barhau â swydd Rheolwr Helplu Cymru ar ôl mis Mawrth 2021.

3.2 Bydd £20,000 a dderbyniwyd gan Helplu ar gyfer eleni, y mae peth ohono heb ei wario, yn cael ei gario drosodd i 2021/22, gyda chaniatâd.

Gwariant

3.3 Ers Covid-19, mae costau cyfarfodydd a theithio wedi gostwng i ddim byd o gwbl, gan adael tanwariant yn y maes cyllideb hwn.

3.4 Cafodd amser staff mewn perthynas â'r grant Adfer Gwirfoddoli yn sgil y Coronafeirws (gweler 2.5.1) ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer y prosiect hwnnw. Achosodd hynny danwariant pellach yng nghyllideb Helplu Cymru eleni.

4 LLYWODRAETHU

4.1 Cyfarfu grŵp llywio Helplu Cymru ym misoedd Mai, Medi ac Ionawr trwy Microsoft Teams a chynhelir sgysiau dal-i-fyny rhwng cyfarfodydd gyda'r cydgadeiryddion. Gwasanaethodd aelodaeth ehangach o'r grŵp llywio fel grŵp cyfeirio ar gyfer y prosiect grant Adfer Gwirfoddoli yn sgil y Coronafeirws (gweler 2.5.1) gan gyfarfod dair gwaith ym mis Chwefror/Mawrth 2021.

4.2 Cafodd natur y berthynas gyda Helplu ei adolygu wrth i'r ymroddiad cyllido dwy flynedd ddirwyn i ben. Mae'r gwaith yn parhau yng Nghymru, gyda chefnogaeth cyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru (yn ogystal â thanwariant 2020/21 gan Helplu a gaiff ei gario drosodd). Caiff ei ragweld y byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Helplu ar y prosiectau Gofal Diwedd Oes ac ar gyfleoedd tebyg ar gyfer gwaith prosiect ar y cyd yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i elwa o gynnal cysylltiadau â'n gilydd ar gyfer rhannu gwybodaeth a chefnogi.